# Adfer cydrannau rhwydweithiau dŵr i gyflwr gweithredol LEGACY

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud ag adfer cydrannau rhwydweithiau dŵr i gyflwr gweithredol Mae hyn yn cynnwys trwsio a newid hydoedd byr o'r brif bibell a gosod ffitiadau mecanyddol allanol dros dro neu yn barhaol ar brif bibelli neu wasanaethau.

Mae hyn yn golygu paratoi i adfer cydrannau, gwneud y gwaith trwsio neu newid o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gan ddefnyddio deunyddiau cymeradwy yn unol â gweithdrefnau'r cwmni.

Mae'r Safon hon ar gyfer gweithwyr adeiladu rhwydweithiau dŵr sy'n adfer cydrannau rhwydweithiau dŵr i gyflwr gweithredol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio yn unol â rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch, amgylchedd a hylendid
2. cynnal asesiad risg safle-benodol, a'i adolygu'n unol â gweithdrefnau'r cwmni
3. dewis a gwisgo'r cyfarpar diogelu personol dynodedig
4. trwsio neu newid cydrannau yn unol â manylebau perthnasol a chyfarwyddiadau gweithio
5. paratoi cydrannau ar gyfer eu trwsio neu eu newid
6. gwneud y gwaith trwsio neu newid o fewn yr amserlen y cytunwyd arni
7. defnyddio deunyddiau a chydrannau cymeradwy ar gyfer trwsio neu newidiadau
8. sicrhau bod cydrannau sydd wedi cael eu trwsio neu eu newid yn cydymffurfio â'r amodau a'r paramedrau gweithredu dan sylw
9. gwneud yr holl waith yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
10. cynhyrchu cofnodion cywir a chyflawn o'r holl waith a gafodd ei wneud
11. delio â phroblemau o fewn eich rheolaeth
12. cyfeirio problemau a chyflyrau sydd y tu hwnt i'ch cyfrifoldeb neu nad oes modd i chi eu datrys at y bobl briodol
13. delio ag unrhyw argyfyngau sydd yn codi yn unol â gweithdrefnau cymeradwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. deddfwriaeth berthnasol iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, gweithdrefnau a chodau ymarfer gan gynnwys y rhai sy'n delio â gwaith cloddio, deunyddiau peryglus, damweiniau a chyfarpar diogelu personol
2. pwysigrwydd cadw at yr holl weithdrefnau hylendid
3. sut i ddehongli darluniau, cynlluniau a manylebau perthnasol
4. y cydrannau gwahanol sy'n cael eu defnyddio ar y rhwydweithiau dŵr
5. sut i drwsio uniadau, craciau a thoriadau llorweddol a chylcheddol, cyrydiad a difrod oherwydd ymyrraeth a phryd mae angen newid
6. sut i drwsio neu newid pibelli a ffitiadau metelaidd ac anfetelaidd
7. technegau i'w defnyddio i drwsio cydrannau
8. dulliau newid cydrannau ar gyfer prif bibelli a gwasanaethau
9. y mathau o offer i'w defnyddio wrth adfer cydrannau i gyflwr gweithredol
10. y gweithdrefnau gofal a rheolaeth sydd i gael eu defnyddio er mwyn sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau hylendid
11. y gwahanol fathau o gofnodion a dogfennau sy'n cael eu defnyddio i gofnodi

EUSWNC10L

Adfer cydrannau rhwydweithiau dŵr i gyflwr gweithredol LEGACY

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Rhag 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Rhag 2021 |
| **Dilysrwydd** | Etifeddiaeth |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | NCO216 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Peiranneg, Goruchwyliwr Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Dŵr |
| **Geiriau Allweddol** | dŵr, rhwydwaith, gweithrediadau, cyfleustod, cyfleustodau |